| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 1 Mawrth 2024 |
| **Swyddog / Aelod Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl |
| **Awdur yr Adroddiad** | Lisa Jones |
| **Teitl** | Cyfansoddiad Panel Recriwtio'r Pwyllgor Safonau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cyfansoddiad Panel Recriwtio'r Pwyllgor Safonau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi copi i'r Pwyllgor o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 27 Chwefror 2024.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn derbyn yr adborth o gyfarfod y Cyngor Llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid yw canlyniad cyfarfod y Cyngor Llawn yn hysbys, felly fe fydd y Pwyllgor yn cael gwybod am y penderfyniad ar lafar.

4.2. Fe fydd y Pwyllgor yn cofio ei fod wedi trafod y syniad o gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor yn y panel sy'n cynnal unrhyw gyfweliad yn y dyfodol ac yn penderfynu ynghylch argymell penodi aelodau annibynnol (lleyg) i Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Cytunodd y Pwyllgor Safonau y dylid dod ag adroddiad gerbron y Cyngor.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

4.3. Mae copi o'r adroddiad i'r Cyngor Llawn ynghlwm yn Atodiad 1.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Wrth wneud y Cadeirydd yn aelod ffurfiol o'r panel recriwtio, ni fydd yn cael cyfraniad negyddol na chadarnhaol ar y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd cost ychwanegol yn deillio o dalu'r gyfradd safonol fesul diwrnod i'r Cadeirydd, gan y byddai'n ofynnol i'r unigolyn hwnnw fod yn bresennol a'u bod felly'n gymwys i dderbyn tâl.

Y gyfradd fesul diwrnod llawn yw £268.00 ar hyn o bryd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid yw'n ofynnol asesu'r effaith ar les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Bydd y Swyddog Monitro yn ymgynghori gydag Arweinwyr Grwpiau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes angen - mae'r datganiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi wrth ddiwygio'r cyfansoddiad heblaw am na fyddai barn un o'r tri grŵp gwleidyddol mwyaf yn aelod ffurfiol o'r panel nac yn cyfrannu at benderfyniadau apwyntiadau aelod annibynnol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau Cymru 2001, rheoliad 15.